



Mae'r Tasglu Gweinidogol ar gyfer Cymoedd y De wedi'i sefydlu a bydd yn gweithio law yn llaw â nifer o strategaethau pwysig gan Lywodraeth Cymru; rhaglenni a phrosiectau a mentrau eraill o bwys y bydd awdurdodau lleol a chyrrff cyhoeddus, megis addysg ac iechyd, yn y De yn cyfrannu atynt. Maent yn cynnwys:

- **Symud Cymru Ymlaen 2016-21**

Fel y dengys y diagram uchod, mae'r blaenoriaethau yn *Ein Cymoedd, Ein Dyfodol* yn cyd-fynd â Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru *Symud Cymru Ymlaen*, sy'n nodi pedair strategaeth drawsbynciol lle gallwn gael yr effaith fwyaf:

- Ffyniannus a diogel
- Iach ac egniol
- Uchelgais a dysgu
- Unedig a chysylltiedig.

Mae *'Ffyniant i Bawb: y strategaeth genedlaethol'* (2017) yn amlinellu amcanion Llywodraeth Cymru o dan bedair thema, ac mae'r camau o fewn *Ein Cymoedd, Ein Dyfodol* a'r Cynllun Gweithredu ategol yn helpu i gyflawni'r amcanion hyn, gan ymateb ar yr un pryd i anghenion penodol cymunedau'r Cymoedd.

- Ffyniannus a diogel – ein nod yw creu economi yng Nghymru sy'n cynnig cyfleoedd i bawb ac sy'n mynd i'r afael ag anghydraddoldeb, gan sicrhau ffyniant i unigolion ac i'n cenedl. Byddwn yn galluogi pobl i wireddu eu huchelgais ac i wella eu llesiant drwy gyflogaeth ddiogel a chynaliadwy.

Papur cyd-destun

Byddwn yn chwalu'r rhwystrau y mae nifer yn eu hwynebu wrth ddod o hyd i swydd, ac yn creu'r amgylchedd iawn i fusnesau dyfu a ffynnu. Mae'r adran ar swyddi a sgiliau yn y cynllun hwn yn cefnogi'r thema hon.

- Iach ac Egniol – ein nod yw gwella iechyd a llesiant yng Nghymru, ar gyfer unigolion, teuluoedd a chymunedau, gan ein helpu i wireddu'n huchelgais i sicrhau ffyniant i bawb, a chymryd camau mawr i newid ein ffordd o weithio, gan newid y pwyslais o drin cyflyrau i atal cyflyrau. Mae'r adran ar well gwasanaethau cyhoeddus a'r adran ar fy nghymuned leol yn y cynllun hwn yn cefnogi'r thema hon, gan gynnwys camau sy'n canolbwyntio ar wella iechyd a lles y rheini sy'n byw yn y Cymoedd.
- Uchelgeisiol ac yn Dysgu – ein nod yw creu'r awydd ym mhawb i ddysgu drwy gydol eu bywydau, a'u hysbrydoli i fod y gorau y gallant fod. Os ydym am weld Cymru yn ffynnu, mae angen pobl greadigol sy'n fedrus iawn ac yn gallu addasu, felly bydd ein haddysg o'r oedran cynharaf un yn sylfaen i oes o ddysgu a chyflawni. Mae camau penodol am wella deilliannau addysgol ac i gau'r bwch cyrhaeddiad i blant a phobl ifanc sy'n byw yn y Cymoedd wedi'u cynnwys yn yr adran ar well gwasanaethau cyhoeddus.
- Unedig a Chysylltiedig – ein nod yw meithrin cenedl lle y mae pobl yn ymfalchïo yn eu cymunedau, yn yr hunaniaeth Gymreig a'r iaith Gymraeg, ac yn ein lle yn y byd. Rydym yn adeiladu'r cysylltiadau hanfodol sy'n ei gwneud yn haws i bobl ddod ynghyd, i'r economi dyfu, ac inni ddod yn genedl fwyfwy hyderus. Bydd y camau sydd wedi'u hamlinellu yn yr adran ar well gwasanaethau cyhoeddus am drafnidiaeth gyhoeddus yn ogystal â'r rheini yn yr adran ar fy nghymuned leol mewn perthynas â datblygu Parc Tirlun y Cymoedd yn helpu i gyflawni amcanion y thema hon o'r strategaeth genedlaethol.

Mae'r strategaeth genedlaethol yn nodi pum maes blaenoriaeth a allai gyfrannu fwyaf at ffyniant a llesiant hirdymor: y blynyddoedd cynnar; tai; gofal cymdeithasol; iechyd meddwl; a sgiliau a chyflogadwyedd. Mae gwaith y Tasglu yn rhoi'r cyfle i brofi a threialu dulliau trawsbynciol newydd yn y meysydd hyn.

- **Bargeinion dinesig**

Mae *Ein Cymoedd*, *Ein Dyfodol* yn egluro y bydd y tasglu yn gweithio gyda'r ddwy fargen ddinesig – Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a Bae Abertawe - i gyflawni'r camau gweithredu a amlinellir yn y cynllun lefel uchel.

Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yw'r fwyaf o'i bath, gan ddwyn ynghyd 10 o awdurdodau lleol gyda chronfa fuddsoddi o £1.2 biliwn dros ugain mlynedd. Mae Metro De Cymru yn ganolog i'r fargen (<http://llyw.cymru/topics/transport/public/metro/?lang=cy>). Nod y fargen yw creu 25,000 o swyddi newydd a denu £4 biliwn o fuddsoddiad sector preifat ychwanegol i'r De.

Papur cyd-destun

Nod Bargaen Ddinesig Bae Abertawe yw rhoi hwb o £1.8 biliwn i'r economi leol a chreu bron i 10,000 o swyddi newydd dros y 15 mlynedd nesaf. Caiff ei chefnogi gan £1.3 biliwn o fuddsoddiad.

- **Byrddau gwasanaethau cyhoeddus a chynlluniau llesiant**

Mae'n bwysig bod newidiadau parhaol i Gymoedd y De yn deillio o waith y tasglu.

Crëwyd byrddau gwasanaethau cyhoeddus statudol gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015¹, a ddisodlodd y byrddau gwasanaethau lleol gwirfoddol ym mhob ardal awdurdod lleol. Rhaid i bob bwrdd gwasanaethau cyhoeddus asesu cyflwr llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol ei ardal a phennu amcanion sydd â'r nod o wneud y gorau o'i gyfraniad at nodau llesiant y Ddeddf.

Rhaid i bob bwrdd gwasanaethau cyhoeddus baratoi a chyhoeddi cynllun yn cyflwyno ei amcanion a'r camau y bydd yn eu cymryd i'w cyflawni – cynlluniau llesiant lleol yw'r rhain. Mae'r tasglu wedi adolygu asesiadau llesiant yr awdurdodau lleol ar gyfer y cymoedd ac wedi ystyried eu canfyddiadau wrth ddatblygu *Ein Cymoedd, Ein Dyfodol*.

- **Cynllun cyflenwi cyflogadwyedd**

Un o flaenoriaethau allweddol *Ein Cymoedd, Ein Dyfodol* yw swyddi o ansawdd da a'r sgiliau i'w cyflawni. Mae Llywodraeth Cymru yn datblygu cynllun cyflenwi cyflogadwyedd, a fydd yn ail-lunio cefnogaeth cyflogadwyedd i bobl sy'n barod i ail-ymuno â'r farchnad lafur a'r rhai sydd bellaf i ffwrdd oddi wrthi, gan eu helpu i gael y sgiliau a'r profiad sydd eu hangen i gael cyflogaeth gynaliadwy a'i chadw.

Bydd y cynllun hwn yn cael ei ddatblygu trwy weithio ar draws Llywodraeth Cymru, a chaiff ei gyhoeddi erbyn y Nadolig. Bydd y tasglu'n gweithio ar y cyd â'r Gweithgor Cyflogadwyedd Gweinidogol ac yn datblygu'r cynlluniau gyda'i gilydd.

Bydd y cynllun cyflenwi cyflogadwyedd yn canolbwyntio ein hymdrechion ar draws adrannau Llywodraeth Cymru, grwpiau rhanddeiliaid a phartneriaid i gynyddu gweithgarwch a chyfranogiad economaidd. Bydd yn alinio casgliad o wasanaethau sy'n cael effaith ar allu unigolyn i gael mynediad at gyflogaeth, ei chadw a gwneud cynnydd.

- **Partneriaethau sgiliau rhanbarthol**

Sefydlwyd partneriaethau sgiliau rhanbarthol i sbarduno buddsoddiad mewn sgiliau mewn ymateb i anghenion lleol. Maent yn gyfrifol am ddadansoddi heriau economaidd a meysydd twf tebygol er mwyn gweld pa sgiliau sydd eu hangen yn y gweithlu. Maent yn cynhyrchu cynlluniau cyflogaeth a sgiliau rhanbarthol blynyddol, sy'n dylanwadu ar ddarpariaeth sgiliau yn y rhanbarth.

Mae'r tasglu wedi gweithio gyda Phartneriaeth Dysgu, Medrau ac Arloesi De-ddwyrain Cymru a Phartneriaeth Sgiliau ac Arloesedd y De Orllewin a'r Canolbarth i ddatblygu *Ein Cymoedd, Ein Dyfodol* ac mae wedi manteisio ar eu

¹ <http://llyw.cymru/topics/people-and-communities/people/future-generations-act/?lang=cy>

Papur cyd-destun

cynlluniau cyflogaeth a sgiliau rhanbarthol i ddarparu tystiolaeth ar gyfer ein cynigion. Byddwn yn parhau i weithio gyda nhw wrth i ni ddatblygu'n cynlluniau.

- **Consortia addysg rhanbarthol**

Mae consortia addysg rhanbarthol yn gweithio ar ran awdurdodau lleol i arwain, trefnu a chydlynu gwelliant ym mherfformiad ysgolion a phobl ifanc. Eu nod cyffredinol yw gwella canlyniadau ar gyfer pob person ifanc; sicrhau y darperir addysgu a dysgu a chefnogaeth o ansawdd uchel a grymuso arweinwyr ysgolion i arwain eu hysgolion yn well.

Wrth i ni ddatblygu'r cynigion yn *Ein Cymoedd, Ein Dyfodol*, yn arbennig mewn perthynas â gwella cyrhaeddiad addysgol yn y Cymoedd, byddwn yn parhau i fanteisio ar wybodaeth ac arbenigedd y consortia a sicrhau bod ein cynlluniau yn cyd-fynd â'r gwaith ehangach y maent yn ei wneud.